

Hysbysiad hwylus

Y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

Ionawr 2012

Sefydlwyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig fel rhan o Gytundeb Gwener y Groglith 1999. Mae'n cynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon, y Llywodraethau datganoledig a Llywodraethau Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

Cyflwyniad

Ar ddydd Gwener 10 Ebrill 1998, yn dilyn dwy flynedd o drafodaethau dwys, cymeradwyodd Llywodraeth Prydain, Llywodraeth Iwerddon a'r pleidiau gwleidyddol yng Ngogledd Iwerddon gytundeb gwleidyddol cynhwysfawr, sef cytundeb Belfast, a adwaenir hefyd fel Cytundeb Gwener y Groglith.

Un o'r sefydliadau a sefydlwyd o dan y cytundeb oedd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Cafodd ei sefydlu'n ffurfiol pan ddaeth y Cytundeb Prydeinig-Gwyddelig, a lofnodwyd gan y ddwy Lywodraeth ar 2 Rhagfyr 1999, i rym. (Hwnnw oedd y cytundeb a roddodd rym i ddarpariaethau Cytundeb Gwener y Groglith.)

Amcanion a gwaith y Cyngor

Sefydlwyd y Cyngor o dan Linyn 3 o Gytundeb Gwener y Groglith 1998. Diffinnir nod y cyngor fel a ganlyn:

to promote the harmonious and mutually beneficial development of the totality of relationships among the peoples of these islands.

Mae'r Cyngor yn cyfnewid gwybodaeth. Mae hefyd yn trafod ac yn ymgynghori ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall ac sydd o fewn cymhwysedd y llywodraethau priodol, ac yn ymdrechu i sicrhau cytundeb o ran cydweithio arnynt.

Yn ystod ei uwchgynhadledd gyntaf, a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Rhagfyr 1999, penderfynodd y Cyngor flaenoriaethu nifer o feysydd a fyddai'n cael budd o ganlyniad i'r math hwn o gydweithio. Er nad yw'r rhestr hon yn gyfan isod, mae'n cynnwys y meysydd a ganlyn:

- materion amaethyddol
- iechyd
- materion rhanbarthol
- ystyriaeth o gysylltiadau rhyng-Seneddol
- ynni

- materion diwylliannol
- twristiaeth
- gweithgarwch chwaraeon
- addysg
- dull gweithredu mewn perthynas â materion yr UE
- ieithoedd lleiafrifol a llai eu defnydd
- materion sy'n ymwneud â charchar a'r gwasanaeth prawf

Mae'r gwaith a gychwynwyd eisoes yn cynnwys gwaith yn y meysydd a ganlyn:

- camddefnyddio cyffuriau
- yr amgylchedd
- trafnidiaeth
- cynhwysiant cymdeithasol
- ieithoedd cynhenid, lleiafrifol a llai eu defnydd
- demograffeg
- polisïau sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar
- cynhwysiant digidol
- cynllunio gofodol cydweithredol
- ynni
- tai

Aelodaeth

Mae aelodau'r Cyngor fel a ganlyn:

- Y Deyrnas Unedig (Llywodraeth sofran)
- Iwerddon (Llywodraeth sofran)
- Cymru (Llywodraeth ddatganoledig)
- Yr Alban (Llywodraeth ddatganoledig)
- Gogledd Iwerddon (Llywodraeth ddatganoledig)
- Ynys Manaw (dibynwlad y Goron)
- Ynys Jersey (dibynwlad y Goron)
- Ynys Guernsey (dibynwlad y Goron)

Nid yw Cytundeb Gwener y Groglith yn cadarnhau pwy yn union sydd yn cynrychioli pob gweinyddiaeth ar y Cyngor, ond mae arweinydd pob Llywodraeth sofran, Llywodraeth ddatganoledig a dibynwlad y Goron yn mynychu uwchgynadleddau'r Cyngor fel arfer.

Cyfarfodydd a threfn y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd ar sawl ffurf: dwy uwchgynhadledd y flwyddyn; cyfarfodydd a gynhelir yn gyson sy'n seiliedig ar sectorau penodol, gyda'r Gweinidog priodol yn cynrychioli'r naill ochr a'r llall; a chyfarfodydd a gynhelir ar ffurf sy'n addas ar gyfer ystyried materion traws-sector.

Darparwyd ysgrifenyddiaeth y Cyngor gan Lywodraethau Prydain ac Iwerddon, a chafodd yr ysgrifenyddiaeth ei staffio gan swyddogion Prydeinig a Gwyddelig. Roedd pencadlys y staff yn y Deyrnas Unedig yn Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, ac roedd eu pencadlys yn Iwerddon yn yr Adran Materion Tramor. Fodd bynnag, ers 1 Ionawr 2012, mae gan y Cyngor ysgrifenyddiaeth benodedig sydd wedi'i lleoli yng Nghaeredin.¹

Y Cyngor a Chymru

Cymru yw'r weinyddiaeth sy'n arwain ar y gwaith a wneir yn y sector **ieithoedd cynhenid, lleiafrifol a llai eu defnydd**. Yn ogystal, Cymru yw'r weinyddiaeth sy'n arwain, ar y cyd gyda'r Alban, ar y gwaith a wneir yn y sector **cynhwysiant cymdeithasol**. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cadeirio cyfarfodydd gweinidogol o'r grŵp ieithoedd cynhenid, lleiafrifol a llai eu defnydd.²

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ar y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, cysylltwch ag **Alys Thomas** (Alys.Thomas@cymru.gov.uk) neu **Owain Roberts** (Owain.Roberts@cymru.gov.uk) o'r Gwasanaeth Ymchwil.

Gallwch weld rhestr lawn o'n hysbysiadau hwylus [yma](#).

Rhif ymholiad: 11/2796 Alys Thomas

Mae briffiau gan y Gwasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd.

Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk

¹ [Llywodraeth yr Alban, The British-Irish Council, datganiad i'r wasg, 20 Mehefin 2011.](#)

² [Datganiad ysgrifenedig gan y Cabinet, Leighton Andrews AC, Ail Gyfarfod Gweinidogol Grŵp Ieithoedd Cynhenid, Lleiafrifol a Llai eu Defnydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, 22 Tachwedd 2011.](#)